

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

## **Aseiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf**

**Aseiad Llesiant Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

CHWEFROR 2022

---

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

---

### Cynnwys

|     |   |    |
|-----|---|----|
| 1   | Crynodeb gweithredol .....                            | 3  |
| 2   | Disgrifiad o Islwyn Isaf .....                        | 4  |
| 3   | Ynghylch Islwyn Isaf .....                            | 5  |
| 4   | Llesiant cymdeithasol .....                           | 6  |
| 4.1 | Ynghylch y gymuned .....                              | 6  |
| 4.2 | Mynd o gwmpas .....                                   | 7  |
| 4.3 | Mynediad at wasanaethau .....                         | 8  |
| 4.4 | Trosedd a diogelwch cymunedol .....                   | 9  |
| 4.5 | Amddifadedd .....                                     | 10 |
| 4.6 | Iechyd .....  | 12 |
| 4.7 | Tai ac aelwydydd .....                                | 13 |
| 5   | Llesiant economaidd .....                             | 15 |
| 5.1 | Addysg .....  | 15 |
| 5.2 | Gwaith a sgiliau .....                                | 15 |
| 6   | Llesiant amgylcheddol .....                           | 17 |
| 7   | Llesiant diwylliannol .....                           | 20 |
| 8   | Yr hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthym ..... | 23 |
|     | Cyfeiriadau .....                                     | 24 |

### 1 Crynodeb gweithredol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r asedau a'r heriau allweddol a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn ar gyfer Islwyn Isaf.

#### *Asedau*

Mae cysylltiadau ffordd o Islwyn Isaf i Gasnewydd, Caerdydd a'r M4 yn dda iawn. Mae rheilffordd Cwm Ebwy yn rhedeg drwy'r ardal gymunedol gyda gwasanaeth bob awr i Gaerdydd, a gwasanaeth bob awr o Crosskeys i Gasnewydd. Bydd gwaith seilwaith parhaus yn ymestyn y gwasanaeth hwn i gynnwys yr ardal gymunedol gyfan. Mae gwasanaethau bws rheolaidd rhwng y cymunedau yn yr ardal gymunedol, yn ogystal â gwasanaethau i Goed Duon a Chasnewydd.

Mae gan Risga sawl archfarchnad genedlaethol ac amrywiaeth o siopau annibynnol ar y stryd fawr. Mae yna hefyd gyfleoedd cyflogaeth lleol mewn nifer o ystadau diwydiannol drwy'r ardal gymunedol.

Mae lefelau isel iawn o amddifadedd yn gyffredinol, heb unrhyw bocedi sylweddol o amddifadedd yn yr ardal gymunedol. Mae'r gymhareb pris tai i enillion yn weddol gyson ar draws yr ardal gymunedol.

Mae Parc Gwledig Cwm Sirhywi yn ased mawr i'r ardal gymunedol ac yn rhoi cyfleoedd i drigolion feicio a cherdded. Mae Coedwig Cwmcarn yn gyrchfan bwysig i dwristiaid ac mae'n denu llawer o ymwelwyr o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol, sy'n dod i fwynhau'r llwybrau beicio i lawr yr allt, y podiau glampio a'r maes gweryslla a rhodfa'r goedwig ei hun. Bu buddsoddiad sylweddol yn y safle yn y blynyddoedd diwethaf, sy'n gwella'r profiad i ymwelwyr.

Mae trigolion lleol wedi dweud wrthym fod yr ardal gymunedol yn dawel, sy'n ei gwneud yn lle da i fyw. Maent hefyd yn gwerthfawrogi rhwyddineb mynediad i fannau gwyrdd lleol a'r amgylchedd hardd y gallant ei fwynhau.

#### *Heriau*

Mae pocedi o fynediad gwael at fand eang cyflymder digonol mewn rhannau o'r ardal gymunedol, sy'n broblem benodol ar hyn o bryd oherwydd nifer y gwasanaethau sydd wedi symud ar-lein oherwydd pandemig Covid-19. Mae mynediad cyfyngedig hefyd i fanciau neu gymdeithasau adeiladu, a all ei gwneud yn anoddach i unigolion bregus gael mynediad i gyfleusterau bancio.

Mae cyfraddau difrod troseddol yn uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol yn y rhan fwyaf o'r ardal gymunedol. Hefyd, mae nifer yr achosion o danau yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y rhan fwyaf o'r ardal gymunedol.

Mae cyfraddau marwolaethau cynamserol sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru yn Ne Crosskeys ac Ynysddu. Yn ogystal, mae lefelau sylweddol is na chyfartaledd Cymru o ddisgwyliad oes iach ym mhob ward o fewn yr ardal gymunedol, er bod yr ystod rhwng y ffigurau uchaf ac isaf yn llawer llai nag ardaloedd cymunedol eraill o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Mae galw yn y farchnad am dai newydd o fewn yr ardal gymunedol, ond mae datblygiadau yn cael eu cyfyngu gan dopograffeg yr ardal a pherygl llifogydd lleol.

Mae trigolion wedi dweud wrthym yr hoffent gael mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd yn lleol, yn enwedig pobl iau a hŷn. Byddent hefyd yn hoffi cael mwy o gyfleoedd i drigolion gael deialog dwy ffordd gyda gwasanaethau cyhoeddus, gwell cysylltiadau cludiant cyhoeddus a mynediad at fwy o gyfleusterau yn lleol.

### 2 Disgrifiad o Islwyn Isaf

Lleolir ardal gymunedol **Islwyn Isaf** i'r gogledd-orllewin o Gasnewydd ac mae'n cynnwys wardiau **Abercarn, Crosskeys, Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga ac Ynys-ddu**. Mae mwyafrif y tir yn cynnwys rhostir, tir pori a choetir. Mae yna ddau ddyffryn serth a chul sydd wedi'u naddu allan gan yr Afon Ebwy a'i his-afon, Afon Sirhywi, gyda llwyfandiroedd mynyddig uwchlaw. Mae'r aneddiadau trefol yn cwmpasu canran fechan o'r ardal hon, wedi'u lleoli'n bennaf ar lawr y dyffryn, ardal sydd mewn perygl o lifogydd.

Mae gan yr ardal gymunedol dirwedd ddeniadol gydag atyniadau nodedig fel Rhodfa Coedwig a Maes Gwersylla Cwmcarn, Parc Gwledig Cwm Sirhywi, a Chamlas Mynwy a Brycheiniog, sy'n rhedeg trwy'r ardal gymunedol. Mae Maestrefi Gardd Pontywaun yn anheddiad nodedig sydd wedi'i ddynodi'n ardal gadwraeth, sy'n cynnwys nifer o adeiladau rhestredig.

Y brif dref yn yr ardal gymunedol yw **Rhisga**. Dyma'r unig ganolfan siopa arwyddocaol yn yr ardal gymunedol ac mae'n cynnwys nifer fawr o unedau manwerthu a thair archfarchnad fwyd. Mae Rhisga wedi bod yn destun buddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol sydd wedi gwireddu llawer o fanteision, yn bennaf oll yw trosi hen Sinema'r Palas yn llyfrgell a chanolfan adnoddau dysgu.



Darperir cyfleoedd cyflogaeth lleol yn yr ardal gymunedol gan yr ystadau diwydiannol canlynol: Tywysog Cymru, Chapel Farm, Fferm Pontywaun, Nine Mile Point, Gogledd a De Blackvein, Y Drenewydd, Park Road, Pontymister a Pharc Tŷ-du.

*Ffigur 1: Cwmcarn Forest Drive*

*Ffigur 2: Former Palace Cinema, Risca*

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

### 3 Ynghylch Islwyn Isaf

| <b>Ardal</b>   | 44.3 km <sup>2</sup> – tua 15.9% o gyfanswm arwynebedd Bwrdeistref Sirol Caerffili sef 278km <sup>2</sup>   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
|--|---|-------|-------|-------------------|---------------|-----------------|---------------|----------------------------|---------------|---------------------------|---------------|---------------|--|
| <b>Poblogaeth</b><br> | Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 24,695 – tua 13.6% o gyfanswm y boblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef 181,731 <sup>1</sup> .   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| <b>Dwysedd poblogaeth</b>  | Dwysedd y boblogaeth yw 5.58 o bobl yr hectar, gyda ACEHI Ynysddu 1, Abercarn 1 a Gorllewin Rhisga 3 â'r poblogaethau uchaf. Mae 6.53 o bobl yr hectar ym Mwrdeistref Sirol Caerffili <sup>2</sup> .  |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| <b>Anheddau</b><br>   | Y cyfrif anheddau yw 11,236 – tua 14% o gyfanswm nifer yr anheddau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 80,149 <sup>3</sup> .  |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| <b>Cyffredinol</b>   | <p>Mae Islwyn Isaf yn cynnwys 4 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG), sy'n cynnwys 14 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai, gallwn weld unrhyw wahaniaethau a allai effeithio ar lesiant.</p> <table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <thead> <tr style="background-color: black; color: white;"> <th style="text-align: left;">ACEHI</th> <th style="text-align: left;">ACEHG</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Abercarn 1, 2 a 3</td> <td>Caerffili 014</td> </tr> <tr> <td>Crosskeys 1 a 2</td> <td>Caerffili 015</td> </tr> <tr> <td>Dwyrain Rhisga 1, 2, 3 a 4</td> <td>Caerffili 016</td> </tr> <tr> <td>Gorllewin Rhisga 1, 2 a 3</td> <td>Caerffili 017</td> </tr> <tr> <td>Ynysddu 1 a 2</td> <td></td> </tr> </tbody> </table> | ACEHI | ACEHG | Abercarn 1, 2 a 3 | Caerffili 014 | Crosskeys 1 a 2 | Caerffili 015 | Dwyrain Rhisga 1, 2, 3 a 4 | Caerffili 016 | Gorllewin Rhisga 1, 2 a 3 | Caerffili 017 | Ynysddu 1 a 2 |  |
| ACEHI  | ACEHG   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| Abercarn 1, 2 a 3  | Caerffili 014   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| Crosskeys 1 a 2  | Caerffili 015   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| Dwyrain Rhisga 1, 2, 3 a 4   | Caerffili 016   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| Gorllewin Rhisga 1, 2 a 3  | Caerffili 017   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |
| Ynysddu 1 a 2  |   |       |       |                   |               |                 |               |                            |               |                           |               |               |  |

**Key:**

Linell Las – ffin ACEHI

Linell Goch – ffin ACEHG

*Ffigur 3: Map o Islwyn Isaf*

### 4 Llesiant cymdeithasol

#### 4.1 Ynghylch y gymuned

Yn gyffredinol, cynyddodd poblogaeth amcangyfrifedig Islwyn Isaf o tua 437 o drigolion, o 24,258 yng Nghyfrifiad 2011 i 24,695 yn 2020(+1.8%), o'i gymharu â chynnydd o 3.5% yng Nghymru gyfan. Gwelodd wyth o'r 14 ACEHI yn Islwyn Isaf gynnydd yn eu poblogaeth dros y cyfnod hwn, gyda'r cynnydd mwyaf yn Abercarn 1 (cynnydd o 12.4% neu 269 o bobl). Gwelodd y chwech ACEHI arall ostyngiad yn eu poblogaeth dros y cyfnod, gyda'r gostyngiad mwyaf yn Nwyrain Rhisga 1 (gostyngiad o 6% neu 85 o bobl). Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd llesiant allweddol.

Yn anffodus, nid yw rhagamcanion poblogaeth ar gael o dan lefel y Fwrdeistref Sirol, felly mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys isod.

Rhagwelir y bydd poblogaeth gyffredinol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 2.0% rhwng 2019 a 2043<sup>4</sup>, i 186,991. Mae hyn mewn cyferbyniad â thueddiadau diweddar, lle cynyddodd y boblogaeth 5.4% rhwng cyfrifiad 1991 a chyfrifiad 2011.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn gostwng 7.4% rhwng 2019 a 2043, sy'n debyg yn fras i gyfartaledd Cymru o 8.0%<sup>5</sup>. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mwyaf hyd at 2028 ac yn dilyn hynny rhagwelir y bydd y ffigur yn aros yn weddol gyson, sef tua 31,000. Gallai hyn olygu 2,521 yn llai o bobl yn yr ystod oedran yma ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng 3.1% rhwng 2019 a 2043 (o'i gymharu â gostyngiad o 2.1% yng Nghymru gyfan), gyda gostyngiad eithaf cyson yn cael ei ragamcanu dros y cyfnod. Gallai hyn olygu 3,487 yn llai o bobl yn yr ystod oedran hon ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043<sup>6</sup>.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 27.2% rhwng 2019 a 2043, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 28.7%<sup>7</sup>. Ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili gallai hyn olygu 9,653 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043<sup>8</sup>. Mae'r ffigur hwn 61% yn uwch na'r gostyngiad rhagamcanol cyfunol yn ffigurau'r boblogaeth ar gyfer y grwpiau oedran 0-15 a 16-64 erbyn 2043.<sup>9</sup>

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 82.6% rhwng 2019 a 2043, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 69.5%. Ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gallai hyn olygu 3,145 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043.<sup>10</sup>

Yn sicr, mae llawer o fanteision posibl i lesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau yn sgil pobl sy'n byw'n hirach.

Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y gallai fod galw uwch am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth oedranus, wrth i'r duedd yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynyddu wrth i ni fynd yn hŷn.

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio hefyd angen tai priodol sy'n diwallu eu hanghenion, yn awr ac yn y dyfodol.

Nid yw'r data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 ar gael, ond yng Nghyfrifiad 2011:

|                      |  |
|----------------------|--|
| <b>Cymry Cymraeg</b> | Roedd 20.1% o drigolion Islwyn Isaf yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg o leiaf, fymryn yn is na chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili o 22.2%, ond yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 37.8% <sup>11</sup> . |
|----------------------|--|

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

|                    |  |
|--------------------|--|
| <b>Gwlad geni</b>  | Ganwyd 87.8% o drigolion Islwyn Isaf yng Nghymru, ychydig yn is na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 88.6% ond yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 72.7% <sup>12</sup> .              |
| <b>Ethnigrwydd</b> | Roedd 98.5% o drigolion Islwyn Isaf o ethnigrwydd Gwyn, bron yn union yr un fath â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 98.3% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 95.6% <sup>13</sup> .         |
| <b>Crefydd</b>     | Roedd 52.3% o drigolion Islwyn Isaf yn nodi Cristnogaeth fel eu crefydd, ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 50.7% ond yn is na chyfartaledd Cymru o 57.5% <sup>14</sup> . |

Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r Gymraeg yn helpu i warchod diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### 4.2 Mynd o gwmpas



Mae pobl yn teithio am amrywiaeth o resymau yn Islwyn Isaf a thu hwnt; ar gyfer hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a theulu, i fynychu addysg neu waith, i symud nwyddau neu ddarparu gwasanaethau, neu i gael mynediad at wasanaethau eu hunain. Mae yna deithwyr i'r ardal hefyd, fel y rhai sy'n gweithio yn yr ystadau diwydiannol neu'r siopau a'r swyddfeydd, a'r rhai sy'n ymweld at ddibenion twristiaeth neu'n mwynhau'r cefn gwlad hyfryd.

Mae cysylltiadau ffordd yn dda gyda Chasnewydd a Chaerdydd, tra hefyd yn cysylltu canol tref Coed Duon a chymunedau cymoedd Ebwy a Sirhywi, sy'n

darparu cyfleoedd gwaith a manwerthu sylweddol. Mae gan Rhisga a Crosskeys orsafoedd ar **reilffordd Cwm Ebwy** sy'n rhedeg gwasanaethau bob awr i Gaerdydd. O fis Rhagfyr 2021, mae gwasanaeth bob awr yn rhedeg rhwng Casnewydd a Crosskeys, a fydd yn cael ei ymestyn i Lynebwy yn 2023 yn dilyn gwelliannau i'r seilwaith. Mae'r ardal hefyd yn cael ei gwasanaethu'n dda gan fysiau, gyda gwasanaeth bob chwarter awr o Gasnewydd drwy Risga a Crosskeys i'r Coed Duon, a gwasanaeth bob hanner awr drwy aneddiadau Cwm Sirhywi o Wattsville a Wyllie i Goed Duon.

Mae **Metro De Cymru** yn rhwydwaith cludiant cyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), gan drawsnewid gwasanaethau trên a bws yn ogystal â beicio a cherdded. Mae Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi £750 miliwn i uwchraddio'r rheilffyrdd i Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, a elwir yn Brif Linellau'r Cymoedd. I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y Metro, ewch i wefan Trafnidiaeth Cymru [Metro De Cymru | Trafnidiaeth Cymru \(trc.cymru\)](#).

Gall trafndiaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd ag incwm isel neu gyfyngedig, a gall prisiau uchel wneud cludiant cyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno. Gall lleihau costau cludiant helpu i gynyddu incwm gwario a helpu i leihau tlodi mewn gwaith.

Mae nifer o fannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus yn Islwyn Isaf, ym maes parcio'r Stryd Fawr (Ynysddu), Canolfan Ymwelwyr Rhodfa Coedwig Cwmcarn, Campws Crosskeys Coleg Gwent, maes parcio Longbridge (Rhisga) a Tesco Extra (Rhisga)<sup>15</sup>. Mae'r stoc tai yn Islwyn Isaf yn cynnwys bron i hanner tai teras, a chymysgedd o dai pâra a thai ar wahân.

Ni fydd gan gyfran fawr o dai teras dramwyfeydd na pharcio oddi ar y stryd ar gael, felly gallai hyn gyfyngu ar y defnydd o gerbydau trydan yn y dyfodol gan y gallai gwefru fod yn broblemus. Gobeithio y bydd datblygiadau yn y dyfodol mewn cyfleusterau gwefru trydan yn helpu i ddatrys y mater hwn.

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

Gall cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus wneud cyfraniad pwysig at anghenion trafndiaeth leol, tra hefyd helpu i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir.

Gall llwybrau teithio llesol diogel, yn enwedig y rhai sy'n darparu potensial ar gyfer cymudo, helpu i gefnogi ffyrdd iach o fyw. Yn y dyfodol efallai y bydd mwy o bobl yn dewis teithio'n llesol, fel y gallant gadw'n iach yn eu henaint. Efallai y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio beiciau trydan i fynd o gwmpas yr ardal.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer ohonom yn **cerdded ac yn beicio mwy** ac yn gwerthfawrogi gwerth ein manau gwyrdd lleol.

Mae **Llwybr 47 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol** yn mynd trwy Gwm Sirhywi, a gelwir y rhan hon yn 'Llwybr y Tri Pharc'. Mae'n cychwyn ym Mharc Gwledig Cwm Sirhywi ger Crosskeys, ac yn mynd trwy Wattsville, Cwmfelinfach ac Ynysddu. Yna mae'n parhau dros Draphont Hengoed/Maesycwmer cyn teithio trwy Barc Penallta a thrwy Nelson cyn gadael y Fwrdeistref Sirol.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer mwy ohonom yn gweithio gartref ac yn cyrchu gwasanaethau ar-lein, ond mae rhai mathau o waith na ellir eu gwneud o bell nac yn ddigidol, megis gwaith ffatri neu fanwerthu. Efallai na fydd angen i genedlaethau'r dyfodol deithio cymaint i'r gwaith.

### Mynediad band eang



Mae gan y mwyafrif helaeth o gartrefi yn Islwyn Isaf fynediad at fand eang o 30Mb/s o leiaf, er bod yna ambell fan lle mae mynediad yn waeth, megis Abercarn 2 (23.6%), Abercarn 1 (14.7%) a Dwyrain Rhisga 2 (10.4%). Ym mhob ACEHI arall yn Islwyn Isaf, mae cyfran yr aelwydydd heb fynediad i fand eang o 30Mb/s o leiaf yn is na chyfartaledd Cymru (6.9%)<sup>16</sup>.

Er bod hygyrchedd band eang yn Islwyn Isaf yn dda ar y cyfan, mae fforddiadwyedd band eang yn llawer mwy o broblem i'r rheini sydd ar incwm

isel neu gyfyngedig. Gall llythrennedd digidol gwael hefyd fod yn rhwystr sylweddol i rai grwpiau o fewn y gymuned.

Gall cymunedau'r dyfodol fod yn llai dibynnol ar systemau telathrebu sefydlog a gallai mwy o bobl ddefnyddio technolegau mwy newydd fel 5G ac ati.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd gweithio gartref a mynediad ar-lein i wasanaethau yn drefniant parhaol am y dyfodol rhagweladwy, neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w manau gwaith neu'n dewis cyrchu gwasanaethau wyneb yn wyneb. Mewn gwirionedd mae'n debygol y gwelir cyfuniad o ryngweithio ar-lein, o bell ac yn bersonol.

Yn y dyfodol bydd angen i Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfan (gan gynnwys Islwyn Isaf) fod yn seibr-ddiogel ac yn ddigidol gynhwysol.

### 4.3 Mynediad i wasanaethau



**Rhisga** yw'r brif dref yn Islwyn Isaf, a bydd trigolion yn teithio o'r ardaloedd cyfagos i'r dref i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Dyma'r unig ganolfan siopa arwyddocaol yn Islwyn Isaf ac mae ganddi dair archfarchnad genedlaethol (Tesco, Lidl ac Aldi), un gangen banc ac un gangen cymdeithas adeiladu, ynghyd ag amrywiaeth o siopau cenedlaethol ac annibynnol llai. Mae Rhisga wedi derbyn buddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol sydd wedi gwireddu llawer o fanteision, yn bennaf trosi hen Sinema'r Palas yn llyfrgell a chanolfan adnoddau dysgu.

Darperir cyfleoedd cyflogaeth lleol yn Islwyn Isaf gan yr ystadau diwydiannol a ganlyn: Tywysog Cymru, Chapel Farm, Pontywaun Farm, Nine Mile Point, Gogledd a De Blackvein, Y Drenewydd, Park Road, Pontymister a Pharc Tŷ-du.



Ar draws Islwyn Isaf ceir y gwasanaethau canlynol:

| Math o ased                   | Rhif |
|-------------------------------|------|
| Ysgol Gynradd                 | 9    |
| Ysgol Uwchradd                | 1    |
| Chweched Dosbarth/Coleg AB    | 1    |
| Llyfrgelloedd                 | 2    |
| Canolfannau hamdden           | 2    |
| Canolfan gymunedol            | 7    |
| Banciau/cymdeithasau adeiladu | 2    |
| Swyddfa Bost                  | 5    |
| Parc Gwledig                  | 1    |
| Gwarchodfa Natur Leol         | 2    |

Mae gan Islwyn Isaf hefyd nifer o ganghennau Swyddfa'r Post yn y pentrefi llai, sy'n cynnig mynediad amgen i wasanaethau bancio lle nad oes canghennau banc.

Mae gan Islwyn Isaf wyth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol gyfun (Rhisga). Mae gan Goleg Gwent hefyd gampws mawr yn Crosskeys, sy'n cynnig darpariaeth 6ed Dosbarth ar gyfer holl hen ardal Islwyn (sy'n cynnwys Dwyrain Canol y Cymoedd ac Islwyn Isaf) ynghyd â darpariaeth addysg bellach.

Mae gan Islwyn Isaf Llyfrgell Porth yn Rhisga a Llyfrgell Defnydd ar y Cyd/Pentref yn Abercarn.

Mae Canolfan Hamdden Rhisga wedi'i lleoli gerllaw'r Ysgol Gyfun ac mae ar agor saith diwrnod yr wythnos. Mae ganddi bwl nofio, ystafelloedd ffitrwydd, stiwdio ddawns, cyrtiau sboncen, neuadd chwaraeon amldefnydd a Maes Artiffisial 3G.

### 4.4 Trosedd a diogelwch cymunedol

Os nad yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i gael mynediad at wasanaethau neu gymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Roedd gan 12 o'r 14 ACEHI yn Islwyn Isaf gyfradd **Difrod Troseddol** uwch na chyfartaledd Cymru o 1.14 achos fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan dair ACEHI (Gorllewin Rhisga 2, Abercarn 1 a Dwyrain Rhisga 2) gyfraddau un a hanner gwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Difrod Troseddol<sup>17</sup>.

Roedd pump o'r 14 ACEHI yn Islwyn Isaf gyfradd **Troseddau Treisgar** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.67 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth, gyda Gorllewin Rhisga 2 (3.96) a Gorllewin Rhisga 3 (3.02) â'r ffigurau uchaf<sup>18</sup>.

Roedd gan bedwar o'r 14 ACEHI yn Islwyn Isaf gyfradd troseddu **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.55 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth, gyda'r ffigurau uchaf yng Ngorllewin Rhisga 2 (3.94) ac Abercarn 1 (3.18)<sup>19</sup>.

Roedd gan bedwar o'r 13 ACEHI yn Islwyn Isaf gyfradd **Byrgleriaeth** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.98 achos fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael yn yr ACEHI sy'n weddill), gyda Gorllewin Rhisga 2 (1.36) a Dwyrain Rhisga 4 (1.14) â'r uchaf ffigurau<sup>20</sup>.

Dim ond dau o'r 14 ACEHI yn Islwyn Isaf oedd â chyfradd **Lladrata** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.53 achos fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael yn yr ACEHI arall). Yr ACEHI hyn oedd Gorllewin Rhisga 1 (0.77) a Gorllewin Rhisga 2 (0.61).<sup>21</sup>

Roedd gan 10 o 13 ACEHI yn Islwyn Isaf gyfradd **Achosion Tân** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.38 achos fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael yn y ddwy ACEHI arall). Roedd gan dair ACEHI (Dwyrain Rhisga 4, Gorllewin Rhisga 1 ac Ynysddu 1) gyfraddau dros un a hanner gwaith cyfartaledd Cymru<sup>22</sup>.

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

Bydd mynd i'r afael ag achosion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi mwy o gydlyniant yng nghymunedau Islwyn Isaf.

### 4.5 Amddifadedd

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o dlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny (mewn ardal ddaearyddol ACEHI), sydd â'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, ynghyd ag amddifadedd cyffredinol. Mae MALIC yn rhestru holl ACEHlau Cymru o'r mwyaf (safle 1) i'r lleiaf difreintiedig (safle 1909).

Mae safleoedd parth MALIC ar gael ar gyfer pob ACEHI yng Nghymru, ac mae'r wybodaeth gyferbyn a throsodd yn crynhoi'r ACEHI sy'n perthyn i'r categorïau mwyaf difreintiedig ym Masn Caerffili, ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol a rhai parthau penodol.

|                                |  |
|--------------------------------|--|
| <b>Amddifadedd cyffredinol</b> | Nid oes unrhyw ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig nac ychwaith yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol yn Islwyn Isaf. Dim ond dwy ACEHI sydd yn y categori 21-30% mwyaf difreintiedig – Dwyrain Rhisga 2 (safle 447 o 1909 yng Nghymru) a Dwyrain Rhisga 4 (safle 566).  |
| <b>Parth Iechyd</b>            | Nid oes unrhyw ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig nac ychwaith yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Iechyd yn Islwyn Isaf. Mae pump ACEHI yn y categori 21-30% mwyaf difreintiedig - Crosskeys 2 (Safle 409), Dwyrain Rhisga 2 (safle 412), Dwyrain Rhisga 4 (safle 462), Gorllewin Rhisga 3 (safle 495) ac Ynysddu 1 (safle 535). |

|                                  |   |
|----------------------------------|---|
| <b>Parth Diogelwch Cymunedol</b> | Nid oes unrhyw ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig yn Islwyn Isaf ar gyfer y Parth Diogelwch Cymunedol. Mae dwy ACEHI yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig – Gorllewin Rhisga 2 (safle 193) ac Abercarn 1 (safle 353).  |
| <b>Parth Incwm</b>               | Nid oes unrhyw ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig nac ychwaith yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn Islwyn Isaf ar gyfer y Parth Incwm. Mae un ACEHI yn y categori 21-30% mwyaf difreintiedig – Dwyrain Rhisga 2 (safle 417).   |
| <b>Parth Cyflogaeth</b>          | Nid oes unrhyw ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig nac ychwaith yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn Islwyn Isaf ar gyfer y Parth Cyflogaeth. Mae tair ACEHI yn y categori 21-30% mwyaf difreintiedig – Dwyrain Rhisga 4 (safle 429), Crosskeys 2 (safle 552) ac Abercarn 2 (safle 573). |

Mae tabl yn dangos y safleoedd parth ar gyfer pob ACEHI yn Islwyn Isaf i'w weld ar Dudalen 11. Mae hyn yn amlygu mai ychydig iawn o bocedi o amddifadedd sydd ar draws Islwyn Isaf, gyda bron dim ACEHI yn y categorïau 10% neu 11-20% mwyaf difreintiedig yn gyffredinol ar gyfer amddifadedd ac ar draws meysydd lluosog.

Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Islwyn Isaf |                         |             |                  |              |              |                              |           |                           |                           |
|--|-------------------------|-------------|------------------|--------------|--------------|------------------------------|-----------|---------------------------|---------------------------|
| Enw ACEHI  | Amddifadedd Cyffredinol | Parth Incwm | Parth Cyflogaeth | Parth Iechyd | Parth Addysg | Parth Mynediad i Wasanaethau | Parth Tai | Parth Diogelwch Cymunedol | Parth Amgylchedd Ffisegol |
| Abercarn 1   | 1032                    | 1241        | 1113             | 900          | 796          | 1321                         | 378       | 353                       | 737                       |
| Abercarn 2   | 718                     | 646         | 573              | 643          | 581          | 1108                         | 794       | 982                       | 1413                      |
| Abercarn 3   | 720                     | 785         | 822              | 628          | 363          | 1616                         | 280       | 694                       | 1380                      |
| Crosskeys 1  | 1275                    | 1077        | 1042             | 1152         | 933          | 1340                         | 771       | 1097                      | 1487                      |
| Crosskeys 2  | 654                     | 613         | 552              | 409          | 825          | 907                          | 1139      | 606                       | 963                       |
| Dwyrain Rhisga 1                                     | 1225                    | 1204        | 1171             | 986          | 1023         | 1326                         | 763       | 554                       | 755                       |
| Dwyrain Rhisga 2                                     | 447                     | 417         | 636              | 412          | 353          | 404                          | 903       | 472                       | 801                       |
| Dwyrain Rhisga 3                                     | 1387                    | 1228        | 1150             | 1196         | 1365         | 1502                         | 892       | 558                       | 1009                      |
| Dwyrain Rhisga 4                                     | 566                     | 632         | 429              | 462          | 657          | 936                          | 1341      | 449                       | 451                       |
| Gorllewin Rhisga 1                                   | 844                     | 792         | 606              | 800          | 940          | 1625                         | 669       | 684                       | 486                       |
| Gorllewin Rhisga 2                                   | 922                     | 886         | 703              | 951          | 1051         | 1766                         | 1215      | 193                       | 280                       |
| Gorllewin Rhisga 3                                   | 635                     | 702         | 763              | 495          | 549          | 1023                         | 617       | 518                       | 327                       |
| Ynysddu 1  | 887                     | 893         | 1006             | 535          | 889          | 1051                         | 386       | 701                       | 1221                      |
| Ynysddu 2  | 1083                    | 1097        | 881              | 939          | 1035         | 658                          | 962       | 804                       | 1504                      |

| Safle MALIC 1-1909                  |
|-------------------------------------|
| 1-191: 10% mwyaf difreintiedig      |
| 192-382: 11-20% mwyaf difreintiedig |
| 383-573: 21-30% mwyaf difreintiedig |
| 574-955: 31-50% mwyaf difreintiedig |
| 956-1909: 50% lleiaf difreintiedig  |

#### 4.6 Iechyd

Mae iechyd da yn agwedd bwysig ar lesiant pob unigolyn ym mhob cymuned, ond mae rhai heriau yn Islwyn Isaf mewn perthynas â thai a chyflawniad addysgol sy'n debygol o gael effaith ar iechyd, ac o bosibl yn cyfrannu at neu'n cael eu hachosi gan iechyd gwael.

Er bod iechyd hunangofnodedig yn gyffredinol dda, mae cyfradd y marwolaethau cynamserol yn uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru mewn tri o'r pedair ACEHI ac mae gan 24.7% o'r bobl sy'n byw yn Islwyn Isaf salwch cyfyngus hirdymor.

|                                       |   |
|---------------------------------------|---|
| <b>Salwch cyfyngus hirdymor</b>       | Dywedodd 24.7% o drigolion Islwyn Isaf fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig neu lawer oherwydd eu hiechyd. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili (25.4%), ond yn uwch na'r cyfartaledd (22.7%) ar gyfer Cymru gyfan <sup>23</sup> .  |
| <b>Cyfradd marwolaethau pob achos</b> | Roedd y gyfradd marwolaethau pob achos yn ACEHG yn Islwyn Isaf dros y cyfnod 2017-19 rhwng 931.5 fesul 100,000 o boblogaeth Caerffili 014 (Crosskeys North ac Abercarn) a 1156.4 yng Nghaerffili 016 (Dwyrain Rhisga), o'i chymharu â chyfraddau cyfartalog Bwrdeistref Sirol Caerffili (1103.7) a chyfraddau cyfartalog Cymru (1031.2) <sup>24</sup> . |
| <b>Marwolaeth gynamserol</b>          | Roedd cyfradd y marwolaethau cynamserol (o dan 75) yn Islwyn Isaf yn amrywio rhwng 374.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili 014 (Gogledd Crosskeys ac Abercarn) a 454.3 yng Nghaerffili 015 (De Crosskeys ac Ynysddu), sy'n sylweddol uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru (382.4). ) <sup>25</sup> .                                  |

|  |  |
|--|--|
| <b>Cyflyrau cronig a gofnodwyd gan Feddyg Teulu</b>        | Mae canran y trigolion â chyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu yn amrywio o 14.2% yng Nghaerffili 017 (Gorllewin Rhisga) i 15.4% yng Nghaerffili 015 (De Crosskeys ac Ynysddu). Mae'r ganran mewn tair o'r pedair ACEHG yn Islwyn Isaf yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.3% <sup>26</sup> .                                       |
| <b>Cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu</b> | Mae canran y preswylwyr â chyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu yn Islwyn Isaf yn amrywio o 22.5% yng Nghaerffili 014 (Crosskeys North ac Abercarn) i 33.1% yng Nghaerffili 016 (Dwyrain Rhisga). Unwaith eto, mae'r ganran mewn tair o'r pedair ACEHG yn Islwyn Isaf yn uwch na chyfartaledd Cymru o 23.2% <sup>27</sup> . |

Gall disgwyliad oes a disgwyliad oes iach amrywio'n sylweddol hyd yn oed o fewn ardaloedd cymharol fach, yn enwedig lle mae cymysgedd o ardaloedd mwy difreintiedig a llai difreintiedig. Yn Islwyn Isaf, ar gyfer dynion adeg geni roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 57.4 mlynedd yn ward Ynysddu i 59.4 mlynedd yn ward Dwyrain Rhisga, sef bwllch o 2.9 mlynedd. Roedd y ffigurau ar gyfer pob ward yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer menywod, roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 58.1 mlynedd yn ward Ynysddu i 61.9 mlynedd yn ward Dwyrain Rhisga, sef bwllch o 3.8 mlynedd. Ar gyfer pob ward ac eithrio Dwyrain Rhisga roedd y ffigurau ar gyfer pob ward yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru<sup>28</sup>.

Bydd mynd i'r afael â phrif achosion marwolaeth a salwch cynamserol, gohirio eiddilwch a helpu oedolion o oedran gweithio i fyw bywydau iachach am gyfnod hirach, drwy atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a hybu llesiant meddwl, yn helpu i greu Islwyn iachach.

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

Yr ysbytai agosaf at Islwyn Isaf yw Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd (o fewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan) ac mae Ysbyty Ystrad Fawr, sy'n Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell yng Ngorllewin Canol y Cymoedd yn Ystrad Mynach. Mae ganddo Uned Mân Anafiadau ac Uned Asesu Meddygol, ac mae'n darparu Llawfeddygaeth Ddydd, Gwasanaethau Adsefydlu a Therapi, Gwasanaethau Diagnostig, amrywiaeth eang o Glinigau Cleifion Allanol Arbenigol, Uned Henoed Eiddil ar gyfer gofalu am bobl hŷn, 164 o welyau cleifion mewnol, Cleifion Allanol Plant. apwyntiadau, gwasanaethau Mamolaeth a Sgrinio Coluddyn.

Mae Ysbyty Athrofaol y Grange wedi'i leoli yng Nghwmbrân (o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) ac mae'n darparu Gwasanaethau Arbenigol, Trawma a Gofal Critigol ar gyfer Gwent gyfan.

Dywedodd 25.1% o drigolion Gorllewin Canol y Cymoedd fod eu hiechyd yn weddol, yn wael neu'n wael iawn. Mae'r ffigur hwn bron yn union yr un fath â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 25.2%, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru o 22.2%<sup>29</sup>.

Mae **Rhwydweithiau Lles Integredig (RhLII)** yn ymwneud â chydweithio'n well ac yn fwy effeithiol, i gefnogi llesiant cymunedol er mwyn parhau i wella iechyd a llesiant ein cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Maent yn cynnwys partneriaid statudol, trydydd sector a chymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi a chryfhau llesiant yn ein cymunedau wrth i'r sefyllfa bresennol esblygu a ninnau i gyd addasu i fywyd ar ôl Covid-19.

Rhisga yw un maes ffocws RhLII yn Islwyn Isaf. I gael rhagor o wybodaeth am waith RhLII, ewch i'r wefan hon: [Integrated Wellbeing Networks Gwent \(iwngwent.wales\)](http://integratedwellbeingnetworksgwent.iwngwent.wales).

### 4.7 Tai ac aelwydydd

Ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol Islwyn Isaf yw sicrhau bod y math iawn o dai ar gael i gefnogi anghenion y gymuned.

Os caiff tai'r dyfodol eu gwella o ran effeithlonrwydd ynni, bydd cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg ac yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon. Bydd angen i gartrefi'r dyfodol allu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu yn awr yn etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol.

|                            |  |
|----------------------------|--|
| <b>Stoc tai</b>            | Mae 45.5% o eiddo yn Islwyn Isaf yn dai teras o'i gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 36.1% a chyfartaledd Cymru o 27.8%. Roedd traean yr eiddo (33.6%) yn dai pâr, o'i gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 39.2% a chyfartaledd Cymru o 31%.  |
| <b>Band treth y cyngor</b> | Mae 63.2% o dai yn Islwyn Isaf wedi'u graddio fel band Treth y Cyngor A neu B (y categorïau tai â'r gwerth isaf) o'i gymharu â ffigur o 52.6% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan.  |
| <b>Daliadaeth</b>          | Mae 69.3% o dai yn Islwyn Isaf mewn perchnogaeth lwyr neu gyda morgais, ffigur sydd union yr un fath â'r Fwrdeistref Sirol gyfan, ac ychydig yn uwch na'r ffigur o 67.4% yng Nghymru gyfan. Mae 17.4% yn cael ei rentu gan yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai, sy'n is na'r ffigur o 18.7% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan ond yn uwch na'r ffigur o 16.4% yng Nghymru. |

Ym MALIC 2019, roedd gan hanner yr 14 ACEHI yn Islwyn Isaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (5.5%) o bobl yn byw ar aelwydydd gorlawn, gyda Dwyrain Rhisga 2 (8.6%) ac Abercarn 3 (6.5%) â'r canrannau uchaf.

Roedd gan hanner yr 14 ACEHI yn Islwyn Isaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (19.7%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael – roedd y ffigurau uchaf yn Crosskeys 1 (32.9%), Abercarn 1 (31%) ac Ynysddu 2 (30.5%)<sup>30</sup>.

---

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

---

Roedd gan hanner yr 14 ACEHI yn Islwyn Isaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (18%) ar gyfer y tai tebygolrwydd yn cynnwys peryglon difrifol - roedd y ffigurau uchaf yn Crosskeys 1 (29.8%), Abercarn 1 (28.4%) ac Ynysddu 2 (28%).

Roedd gan wyth o'r 14 ACEHI yn Islwyn Isaf ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (3.2%) ar gyfer y tebygolrwydd y byddai tai mewn cyflwr gwael. Roedd gan bedwar o'r ACEHI hyn yr un ffigur (6%) – Crosskeys 1, Ynysddu 2, Ynysddu 1 a Gorllewin Rhisga 2<sup>31</sup>.

Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru** yn gyfres o safonau y mae'n rhaid i bob cartref Cyngor a Chymdeithas Tai yng Nghymru eu bodloni. Mae'r safon yn nodi y dylai pob cartref fod mewn cyflwr da, yn ddiogel, wedi'i wresogi'n ddigonol, yn gyfoes o ran ceginau ac ystafelloedd ymolchi, wedi'i reoli'n dda, mewn amgylcheddau deniadol a diogel ac yn addas ar gyfer aelwydydd penodol. Gan fod y Cyngor wedi cadw ei stoc tai, mae'n gyfrifol am godi'r stoc i'r safon hon.

Mae tua £260 miliwn wedi'i wario ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y blynyddoedd diwethaf i gyrraedd y safon hon. Mae gwaith mewnol wedi cynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi, gwresogi ac ailweirio trydanol newydd. Mae gwaith allanol wedi cynnwys drysau newydd, ffenestri, cafnau/pibellau dŵr ac ail-doi eiddo. Mae rhaglen gwella amgylcheddol hefyd wedi'i chyflwyno fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n edrych ar ardaloedd y tu allan i gwrtil tai cyngor.



Mae cryn amrywiaeth yn y cynnydd canolrifol yn y prisiau a dalwyd am dai mewn gwahanol wardiau yn Islwyn Isaf rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2021. Yn ward Gorllewin Rhisga mae'r pris canolrifol wedi codi 20% i £149,975, ac yn ward Ynysddu cynyddodd y pris canolrifol 15.9% i £127,500. Yn groes i hynny, gwelwyd gostyngiad o 1.7% yn y pris canolrifol yn ward Abercarn i £118,000<sup>32</sup>.

Yr incwm blynyddol cyfartalog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw £29,289, sy'n golygu bod y gymhareb pris tŷ i incwm dros 5:1 yn ward Gorllewin Rhisga, a 4:1 yn ward Abercarn (y ward â'r pris canolrifol isaf ym mis Mawrth 2021). Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i berson sengl wario dros 5 gwaith ei gyflog i allu prynu eiddo yn ward Gorllewin Rhisga, sy'n debygol o olygu bod llawer o bobl sengl yn cael eu hatal rhag prynu eiddo heb gymorth, megis cymorth gan deulu neu berchnogaeth a rennir.

Mae diffinio'r angen am dai yn gymhleth a bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar lefelau cyffredinol y galw.

Nodweddir yr ardal hon gan brisiau tai a gwerthoedd rhent is o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae Islwyn Isaf wedi cynnwys 18% o ddatblygiadau newydd ar safleoedd mawr dros y 15 mlynedd diwethaf, sy'n cyfateb i 830 o unedau. Mae'r strategaeth CDLI mabwysiedig yn hyrwyddo datblygiad ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn yr ardal hon ac mae lefel y datblygiad wedi'i gyfyngu gan y topograffi a materion risg llifogydd, yn enwedig yn Rhisga. Fodd bynnag, mae galw yn y farchnad am ddatblygiadau newydd yn y maes hwn.

### 5 Llesiant economaidd

#### 5.1 Addysg

Gall profiadau plentyndod bennu datblygiad hirdymor a chyflawniadau bywyd cyffredinol.

Ar gyfer Islwyn Isaf, mae parth Addysg MALIC 2019 yn dangos y canlynol:

|                     |  |
|---------------------|--|
| <b>Parth Addysg</b> | Mae dwy ACEHI yn Islwyn Isaf yn y 10% categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes Addysg – Dwyrain Rhisga 3 (safle 353 o 1909 yng Nghymru) ac Abercarn 3 (safle 363). Yn ogystal, mae dwy ACEHI yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig – Gorllewin Rhisga 3 (safle 549) a Dwyrain Rhisga 4 (safle 657). |
|---------------------|--|

Mae Dwyrain Rhisga 2 hefyd yn gymharol uchel mewn nifer o feysydd eraill o amddifadedd – amddifadedd cyffredinol ynghyd ag Incwm, Iechyd, Mynediad at Wasanaethau a Diogelwch Cymunedol. Mae hyn yn dweud wrthym y gallai ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol fod yn cyfrannu at fylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng unigolion a chymunedau.

Bydd sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd da a chodi dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc yn y dyfodol yn cefnogi eu llesiant economaidd hirdymor.

Mae'r data'n dangos, yng nghyswllt Islwyn Isaf, bod cyfran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch yn amrywio rhwng 14.7% yn Nwyrain Rhisga 2 i 39.5% yn Nwyrain Rhisga 1. Mae hefyd yn dangos bod cyfran yr oedolion 25 i 64 oed sydd heb unrhyw gymwysterau yn amrywio, o 16.1% yn Nwyrain Rhisga 3 i 30.1% yn Nwyrain Rhisga 2<sup>33</sup>.

I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd cludiant fod yn rhwystrau mawr rhag mynd i addysg uwch.

Mae angen cefnogi ac annog cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bobl ifanc i'w hatal rhag dod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

#### **Absenoldeb mynych o'r ysgol**

Mae absenoldeb mynych disgyblion ysgol yn Islwyn Isaf yn amrywio o 2.3% yn Nwyrain Rhisga 3 i 9.5% yn Nwyrain Rhisga 4<sup>34</sup>. (Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd)

#### 5.2 Gwaith a sgiliau

Bydd gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddod o hyd i waith sy'n gweddu, sy'n werth chweil ac sy'n osgoi tlodi mewn gwaith.

#### **Gweithgarwch / anweithgarwch economaidd**




Roedd 17,967 o drigolion 16-74 oed yn Islwyn Isaf ar adeg Cyfrifiad 2011<sup>35</sup>. O'r rhain, roedd 12,128 yn economaidd weithgar:

- roedd 54.7% yn gyflogedig (49.5% yng Nghymru)
- Roedd 5.7% yn hunangyflogedig (8.6% yng Nghymru)
- Roedd 4.9% yn ddi-waith (4.3% yng Nghymru).

Roedd 5,839 o drigolion economaidd anweithgar yn Islwyn Isaf:

- Roedd 16% wedi ymddeol (16.1% yng Nghymru)
- Roedd 3.6% yn gofalu am eu cartref neu deulu (3.8% yng Nghymru)
- roedd 7% yn sâl neu'n anabl hirdymor (6.3% yng Nghymru)

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

|   |   |                          |       |
|---|---|--------------------------|-------|
| <b>Sgiliau</b><br> | Dangosir y lefel uchaf o gymwysterau ar gyfer trigolion Islwyn Isaf yng Nghyfrifiad 2011 isod <sup>36</sup> .   | <b>Islwyn Isaf Cymru</b> |       |
|   | Dim cymwysterau   | 29.6%                    | 25.9% |
|   | Lefel 1   | 16.4%                    | 13.3% |
|   | Lefel 2   | 15.8%                    | 15.7% |
|   | Lefel 3+  | 30.4%                    | 36.8% |
| Prentisiaeth  | 4.0%  | 3.9%                     |       |
| <b>Diwydiant cyflogaeth</b>   | Yng Nghyfrifiad 2011 y diwydiant cyflogaeth mwyaf yn Islwyn Isaf oedd Gweithgynhyrchu ar 17.5% (10.5% yng Nghymru), yna Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu: Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur ar 15.9% (15.6% yng Nghymru). Dilynwyd hyn gan Weithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol ar 12.5% (14.5% yng Nghymru) <sup>37</sup> . |                          |       |
| <b>Prif safleoedd cyflogaeth</b>  | Mae ystadau diwydiannol yn Prince of Wales, Chapel Farm, Pontywaun Farm, Nine Mile Point, Gogledd a De Blackvein, Y Drenewydd, Park Road, Pontymister a Pharc Tŷ-du, gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau cyflogaeth lleol ar gyfer yr ardal.  |                          |       |

Nid Islwyn Isaf yn unig sydd â gorddibyniaeth ar y sector Gweithgynhyrchu, oherwydd ceir darlun tebyg ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili a llawer o dde Cymru.

Mae pandemig Covid-19 yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar batrwm cyflogaeth yn lleol, gyda'r effeithiau mwyaf yn y sectorau Manwerthu, Lletygarwch, Twristiaeth ac (i raddau) Adeiladu.

Bydd yr ardaloedd mwyaf llwyddiannus yn gallu cynnig amrywiaeth o swyddi o safon mewn gwahanol sectorau, ac mae'r economi sylfaenol hefyd yn dod yn fwyfwy pwysig (yr economi sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, megis ynni, bwyd a gofal iechyd, ac mae ganddi ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at wydnwch hirdymor yr economi leol). Bydd cael cyflogaeth o ansawdd da sy'n talu'n dda yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles unigolyn.

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â naw ardal awdurdod lleol arall yn Neddwyrain Cymru yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, trosoledd o £4 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae wyth sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth wrth symud ymlaen.



Ffigur 4: Sectorau blaenoriaeth Dinas-Ranbarth Caerdydd

Un o'r heriau allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan fydd sicrhau bod y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol yn cysylltu â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd lle bo'n briodol, fel bod yr ardal yn elwa cymaint â phosibl ar y buddsoddiad a'r twf economaidd a fydd yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod.



## 6 Llesiant amgylcheddol



Ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd sy'n darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed peillio a storio carbon.

Mae'r hen ddiwydiannau mwyngloddio a haearn a'r safleoedd diwydiannol trwm cysylltiedig wedi cael effaith fawr ar dirwedd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Lleolwyd pyllau glo ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda deugain o byllau glo yng Nghwm Rhymni Uchaf yn unig erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r diwydiannau hyn wedi cyfrannu at etifeddiaeth iechyd gwael yn y Fwrdeistref Sirol. Erbyn diwedd yr 20fed Ganrif, yn dilyn cau'r holl byllau glo, cafodd llawer o weddillion y diwydiannau hynny eu hadennill neu eu symud a'u tirlunio i ddileu'r dystiolaeth weledol o orffennol diwydiannol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r etifeddiaeth ddiwydiannol hon o'r gorffennol yn dangos pwysigrwydd cynnal a gwella treftadaeth naturiol y Fwrdeistref Sirol, er mwyn gwella ansawdd bywyd a chreu amgylchedd iachach i bobl leol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod llawer o'r safleoedd diffaith a halogedig sy'n weddill yn cynnwys tirweddau ecolegol pwysicaf y Fwrdeistref Sirol.

Mae glasu cymoedd De Cymru wedi bod yn drawsnewidiol – lle safai pennau pyllau glo a gweithfeydd mwyngloddio ar un adeg, mae parciau gwledig a choedwigaeth bellach yn cynnig amgylchedd gwyrdd ac iach sy'n denu miloedd o drigolion a thwristiaid bob blwyddyn. Mae'r dirwedd yn cael ei chynnal, ei gwarchod a'i gwella gan ffermwyr, mentrau a grwpiau, gan gefnogi systemau ecolegol cysylltiedig, bioamrywiaeth gyfoethog, lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd a darparu'r bwyd ar ein platiau.

Mae'r amgylchedd byw naturiol yn arbennig yn helpu i godi llesiant meddwl pobl, yn ogystal â darparu campfa werdd am ddim i wella iechyd corfforol pobl. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cynyddu hyd oes iach, lleihau nifer yr achosion o glefydau cronig, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, Diabetes math 2 ac osteoporosis.

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn hyrwyddo tirwedd eiconig a phobl Cymoedd De Cymru, gan weithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r amgylchedd a'r buddion cymdeithasol i gymunedau lleol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfan yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd<sup>38</sup>.

*Ffigur 4: Parc Gwledig Cwm Sirhywi*

Mae **Parc Gwledig Cwm Sirhywi** yn ymwneud â chysylltiadau cludiant hen a newydd, a gall ymwelwyr fynd am dro hamddenol ar hyd rhan o'r hen reilffordd a oedd yn rhedeg o Dredegar yn y gogledd i ddociau Casnewydd yn y de. Yn agos i bedair milltir o hyd mae digon o lwybr gwastad ac arwyneb da i deithio ar ei hyd. Mae hefyd yn bosibl cerdded neu feicio drwy'r coetiroedd sy'n codi o lan yr afon ac yn ymestyn i fyny ochrau'r dyffryn.

Mae Llwybr 47 (Llwybr Celtaidd) y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhedeg ar hyd y parc a thu hwnt. Felly gall y rhai sy'n dymuno crwydro ar feic ddilyn y llwybr tua'r gorllewin gan groesi Traphont drawiadol Hengoed ac ymlaen i Barc Penallta. Mae gan y Parc lawer mwy i'w gynnig na'r hen drac rheilffordd yn unig. Mae hefyd yn codi i fyny ochr y bryn i mewn i'r coetiroedd a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gan gynnig ystod ehangach o deithiau cerdded mwy egniol. Fel arall, gall ymwelwyr ddisgyn lawr at lan yr afon Sirhywi a mwynhau cerdded yng nghwmni golygfeydd a synau'r dŵr yn rhuthro heibio ar ei ffordd i lawr yr afon. Pwyntiau o ddiddordeb yw Pont Tramffordd drawiadol Penllwyn (ynghyd â slipers carreg gwreiddiol) neu ddarganfod Capel

---

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

---

y Babell, lle claddwyd y bardd Islwyn. Mae gan y Parc hefyd ddwy o warchodfeydd natur lleol y Fwrdeistref Sirol - Graig Goch a Flatwoods Meadows - a'r fferm fynydd draddodiadol yn Ynys Hywel.

Cliriwyd llawer o'r coetir gwreiddiol yng Nghymoedd De Cymru i ddarparu siarcol ar gyfer y diwydiant haearn cynnar a phren ar gyfer y pyllau. Mae'r coetir yng **Ngwarchodfa Natur Leol Graig Goch** yn un o'r ychydig weddillion o'r coetir cyn-ddiwydiannol hwnnw ac mae'n nodwedd bwysig o ran bywyd gwylt a thirwedd. Mae'n goetir derw a ffawydd hynafol, a'r amser gorau i ymweld yw yn y gwanwyn pan fydd llawr y coetir dan garped o glychau'r gog. Mae'r gwanwyn hefyd yn dod â'r goedwig yn fyw gyda chân yr adar – mae adar tingoch, gwybedog a theloriaid i'w clywed wrth iddynt chwilio am gymar.

*Ffigur 5: Pont Tramffordd Penllwyn, Nine Mile Point*

Mae **Dolydd y Tir Gwastad** yn hen ddolydd gwair a dyma rai o'r ychydig enghreifftiau sydd ar ôl o laswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau yn Nyffryn Sirhywi. Mae glaswelltiroedd fel hyn yn dod yn llai cyffredin ar draws y wlad hefyd. Mae rheolaeth ofalus ar y Warchodfa Natur Leol hon wedi galluogi'r blodau gwylt i ffynnu ac mae'r rhain yn eu tro yn darparu bwyd i bryfed, adar a mamaliaid. Mae dwy ddôl haf fawr gynnes ar lannau Afon Sirhywi, ac mae gwyfyn y gors, sy'n brin yn lleol, a'r fritheg berlog fach ill dau yn ymgartrefu yma. Yn y gwanwyn, mae'r pwll bach yn gyforiog o amffibiaid, ac mae crehyrod yn aml yn galw i mewn am wledd o frogaod. Gyda'r nos, mae ystlumod y dŵr ac ystlumod mawr yn hedfan ar draws y ddôl. Yn ystod y dydd, bydd glas y dorlan a bronwen y dŵr yn cymudo i fyny ac i lawr yr afon i gasglu bwyd i'w cywion, ac mae'n bosibl hefyd cipolwg ar ddyfrgi ar y Sirhywi. Ar y naill ben a'r llall i'r dolydd lle mae'r glaswelltir yn ildio i goetir, mae carpedi ysblennydd o glychau'r gog o dan y coed derw.

O'r bandstand olaf sydd ar ôl yn y Fwrdeistref Sirol i ardd sydd wedi ennill medal aur, mae ymweld â **Pharc Waunfawr** yn llawn rhyfeddodau annisgwyl. Yn dyddio o'r cyfnod Edwardaidd cynnar, saif y Parc mewn lleoliad dramatig yn rhan isaf Cwm Ebwy yn Crosskeys, gyda'r bryniau cyfagos yn edrych drosto.

Mae'r Parc yn lleoliad chwaraeon o bwys ar gyfer ardaloedd Crosskeys a Phontywaun a defnyddir llawer o naw hectar y parc ar gyfer criced, pêl-droed a rygbi. Mae'r cyfleoedd chwaraeon hefyd yn cael eu hymestyn gyda lawnt fowlio, offer campfa awyr agored ac ardal gemau amldeffnydd. Ar gyfer ymwelwyr iau mae ardal chwarae 10 pwynt gydag amrywiaeth o sleidiau, siglenni a fframiau dringo. Mae'r Parc yn falch ofod wedi ennill Gwobr y Faner Werdd i gydnabod man gwyrdd sy'n cael ei reoli'n dda.

*Ffigur 6: Parc Waunfawr, Crosskeys*

---

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

---

Mae bryniau ardal Cwmcarn a gafodd eu cloddio yn y gorffennol bellach wedi'u trawsnewid yn **Goedwig Cwmcarn**, gyda choedwigoedd heddychlon a golygfeydd trawiadol, lle mae natur wedi adennill y rhan fwyaf o'i gorffennol o'r bywyd diwydiannol blaenorol. Heddiw mae'r Goedwig wedi dod yn hafan i bobl a bywyd gwyllt.

Mae'n baradwys beicio mynydd gyda thri llwybr beicio mynydd, digon o le i barcio, siop trwsio beiciau a gwasanaeth lifft, mae popeth wrth law ar gyfer diwrnod o feicio ar gyfer rhai sy'n chwilio am chwistrelliad o adrenalin neu sy'n chwilio am wefr. Gall ymwelwyr aros yn un o'r codennau glampio neu'r cabanau newydd ar y safle, ac mae brecwast ar gael ynghyd â byrbrydau a phrydau swmpus yn Caffi'r Gigfran, sydd wedi'i leoli yn y ganolfan ymwelwyr. Boed yn llwybrau cerdded neu'n daith hamddenol, mae gan Goedwig Cwmcarn y cyfan, o ddringfeydd heriol i fyny Twmbarlwm i deithiau cerdded hamddenol o amgylch y goedwig a llawr y dyffryn.

Yn dilyn buddsoddiad sylweddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae Rhodfa Coedwig Cwmcarn wedi croesawu ymwelwyr yn ddiweddar am y tro cyntaf ers dros chwe blynedd, ar ôl cau yn 2015 i ganiatáu ar gyfer cwmpo 150,000 o goed yr effeithiwyd arnynt gan y clefyd *Phytophthora Ramorum*.

Gall ymwelwyr oedi o amgylch y troadau troellog a chaniatáu i'r goedwig hudolus eu trochi yn ei llonyddwch. Mae yna saith maes parcio i fwynhau'r golygfeydd panoramig syfrdanol o'r wlad o gwmpas neu gellir defnyddio un o'r mannau picnic a barbeciw niferus i ymlacio. Gall plant losgi rhywfaint o egni mewn tri maes chwarae antur newydd, twneli synhwyraidd, llwybr cerfluniau'r coetir neu'n dilyn sawl llwybr pob gallu ar hyd y llwybr.

Mae Coedwig Cwmcarn yn un o'r tair ardal o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n un o 12 'Porth Darganfod' Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Maent yn fannau sy'n cynnig mynediad i'r dirwedd a'r dreftadaeth sy'n rhan o stori'r cymoedd ac yn lleoedd lle gall pobl fynd allan, cael hwyl, archwilio'r dirwedd a darganfod mwy am natur.

## 7 Llesiant diwylliannol

Mae diwylliant yn eang ac yn hollgynhwysol, yn cwmpasu credoau, arferion, nodweddion a hunaniaeth a rennir ac wedi'i ddiffinio gan bopeth gan gynnwys iaith, traddodiad, treftadaeth, normau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn dawns, cerddoriaeth a'r celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill. Mae diwylliant hefyd yn cael ei ddylanwadu gan bobl yn symud i ardal a chynyddu amrywiaeth ddiwylliannol, gan arwain at dwf yn niwylliant yr ardal.

Mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn cael ei weld fel rhan fawr o ddiwylliant Cymru gan lawer o bobl. Mae cyfran y bobl sy'n gallu o leiaf siarad Cymraeg yn Islwyn Isaf yn amrywio o 15.3% yn Crosskeys 2 i 23.9% yn Abercarn 2. Roedd gan ddeg o'r 14 ACEHI yn Islwyn Isaf ffigur islaw cyfartaledd y Fwrdeistref Sirol (22.2%) ac roedd y ffigur ym mhob ACEHI yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (37.8%)<sup>39</sup>.

Mae grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg, gan ddangos dylanwad addysg Gymraeg yn yr ardal.

|                                   |   |
|-----------------------------------|---|
| <p><b>Atyniadau allweddol</b></p> | <p>Mae <b>Coedwig Cwmcarn yn</b> cynnig rhywbeth at ddant pawb, o anturiaethau gwefreiddiol i arosiadau tawel dros nos, mae'n ddigon agos i ymwelwyr allu encilio yno a theimlo eu bod miliwn o filltiroedd i ffwrdd. Gall ymwelwyr ymgnio neu ymlacio; dewis o blith llwybrau beicio mynydd a gweithgareddau dŵr llawn adrenalin neu fynd am dro o amgylch un o'r llwybrau cerdded niferus. Gallant aros yn un o'r chwe chaban moethus, deg coden glampio, neu ddefnyddio'r maes gwersylla. Mae gan Goedwig Cwmcarn brofiad canolfan ymwelwyr modern gyda man gwybodaeth eang yn cynnwys mapiau a gwybodaeth leol.</p> |
|-----------------------------------|---|

|  |  |
|--|--|
|  | <p>Mae Caffi'r Gigfran yn cynnig prydau poeth a byrbrydau oer ynghyd â chacennau cartref blasus a dewis gwych o ddiodydd poeth ac oer. Mae ystafell gyfarfod ar gael i'w llogi ar gyfer cyrsiau hyfforddi, cynadleddau a chyfarfodydd.</p> <p>Mae Anturiaethau Caerffili yn ffodus i allu galw Coedwig Cwmcarn yn gartref iddynt, sy'n berffaith ar gyfer beicio mynydd, cyfeiriannu a gweithgareddau dŵr ar y llyn.</p>   |
|  | <p>Mae <b>Parc Gwledig Cwm Sirhywi</b> yn rhedeg ar hyd ochr orllewinol Cwm Sirhywi rhwng cylchfan Full Moon yn Crosskeys a Gelli-groes. Mae tair taith gerdded hunandwys fer ar gael o fewn y parc gwledig – Llwybr yr Afon, Llwybr y Dolydd a Llwybr y Coetir. Mae yna hefyd lwybr Beicio Mynydd sy'n defnyddio ffyrdd y goedwig o fewn coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru. I'r rhai sy'n chwilio am heriau cerdded hirach, mae Taith Gerdded Cwm Sirhywi (27 milltir) a Llwybr y Gigfran (12 milltir) yn mynd trwy'r parc.</p> |

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ddigon ffodus i feddu nifer fawr o sefydliadau celfyddydol cymunedol sy'n hanfodol i godi proffil y celfyddydau, denu ymwelwyr ac incwm ychwanegol i'r Fwrdeistref Sirol a darparu elfen gymdeithasol hanfodol i gymunedau lleol trwy gyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau neu berfformio. Mae bron i 100 o grwpiau celfyddydol yn cyfarfod i ymarfer, datblygu, gwneud ac arddangos eu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae yna hefyd nifer sylweddol o weithgareddau celfyddydol cymunedol sy'n mynd o dan y radar, megis prosiectau untro mewn ysgolion, clybiau ieuenctid, grwpiau pobl hŷn, cynlluniau haf, addysg oedolion a chanolfannau cymunedol.

---

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

---

*Celfyddydau Gweledol* - mae gan y celfyddydau gweledol bron i 20 o grwpiau yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cwmpasu ffotograffiaeth, cerflunwaith, paentio, ffilm, gwneud printiau a chrefftau.

*Celf gyhoeddus* - mae gan lawer o drefi a phentrefi yn y Fwrdeistref Sirol ddarnau dychmygus o waith celf cyhoeddus, gan gynnwys cerfluniau, mosaigau a murluniau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio gydag ysgolion lleol, cymunedau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu a chynhyrchu gwaith celf sy'n cyfoethogi ac yn adlewyrchu hanes a diwylliant cymunedau lleol.

Mae enghreifftiau o gelf gyhoeddus yn Islwyn Isaf yn cynnwys y Ripple Railings (Hall's Road, Pontywaun), 'Gog Rhisga' (ger Archfarchnad Tesco) a Murlun Tiroedd Tredegar (Bloc Toiledau ym Mharc Rhisga).

Dros y blynyddoedd diwethaf mae swm sylweddol o fuddsoddiad wedi canolbwyntio ar waith celf cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol, gyda thua £1.7 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau o'r fath. Mae cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn wedi dod oddi wrth y Cyngor, ac amrywiaeth o sefydliadau allanol, gan gynnwys arian Ewropeaidd.

Mae cynnwys y gymuned leol yn arwyddocâd eu treftadaeth leol yn bwysig er mwyn sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a lles cymunedol.

Mae Islwyn Isaf yn gartref i ystod eang o glybiau a chymdeithasau, gan gynnwys grwpiau sgowntiaid, cymdeithasau coffa, grwpiau celf, cymdeithasau lles, grwpiau rhandir, grwpiau rhieni a phlant bach, cymdeithasau trigolion, grwpiau ieuenctid, cymdeithasau cymunedol a grwpiau henoed.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fod yn ffordd dda o ddod â phob rhan o'r gymuned ynghyd a meithrin cydlyniant cymunedol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig ers dechrau'r pandemig Covid-19, ac er bod cyfarfod ag eraill wedi bod yn anodd am gyfnod sylweddol o amser, mae'r clymau sydd wedi'u creu o fewn ein cymunedau wedi golygu bod unigolion bregus wedi cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

*Ffigur 7: Gog Rhisga*

---

## Asesiad Llesiant Lleol Islwyn Isaf

---

Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd, i fagu hyder a dysgu sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ac i gael hwyl mewn lleoliad anffurfiol. Heb i wirfoddolwyr roi o'u hamser er budd eu cymunedau lleol, ni fyddai'r un o'r clybiau a chymdeithasau a restrir uchod yn gallu bodoli.

Mae'r eglwysi a chapeli niferus yn Islwyn Isaf hefyd yn gartref i ymdrechion gwirfoddoli, yn enwedig darparu clybiau cinio a dosbarthu bwyd i'r rhai mewn angen. Mae yna nifer o fanciau bwyd yn Islwyn Isaf sy'n darparu bwyd rhad ac am ddim neu rad iawn i'r rhai mewn angen neu ar incwm isel – mae'r rhain yn cynnwys Eglwys Gristnogol Bywyd Newydd, Abercarn, Ymddiriedolaeth Fethodistaidd Tŷ Sign a grŵp Gwirfoddolwyr Covid-19 Rhisga.

Mae manteision meddyliol a chorfforol ymarfer corff wedi'u dogfennu'n helaeth. Trwy waith caled aelodau'r gymuned, mae yna lawer o glybiau a thimau chwaraeon yn Islwyn Isaf gan gynnwys criced, bowls, rygbi, pêl-droed, genweirio, gymnasteg ac athletau. Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r manteision iechyd o fod yn gorfforol weithgar yna mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad, yn enwedig ymhlith merched ifanc, sydd fel arfer yn rhoi'r gorau i weithgareddau chwaraeon yn eu harddegau. Gall ystod amrywiol o brofiadau plentyndod helpu i ennyn diddordeb gydol oes mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

Yn bennaf, mae tirwedd naturiol Islwyn Isaf wedi'i nodweddu gan olion y newid diwydiannol mawr a ddigwyddodd yn ardal De Cymru ar ddiwedd y 18<sup>fed</sup> ganrif a dechrau'r 19<sup>eg</sup> ganrif. Ceir nifer o enghreifftiau o dreftadaeth ddiwydiannol gynlluniedig, ac mae'r rhain yn darparu treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal, sy'n cael ei chydabod fwyfwy fel nodwedd unigryw'r Fwrdeistref Sirol a Chymoedd De Cymru yn ehangach.

Mater allweddol o ran treftadaeth ddiwydiannol yr ardal yw ei diogelu ac, yn bwysicach fyth, cael ailddedfnydd buddiol o'i hadeiladau. Bydd dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddedfnydd yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cadw.

O fewn Islwyn Isaf mae cyfanswm o 114 o **Adeiladau Rhestredig** – mae'r term hwn yn cyfeirio at adeilad neu adeiledd arall sydd wedi'i ddynodi'n swyddogol fel un ag arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol arbennig:

- Abercarn – 14 x Gradd II ac 1 x Gradd II\* (Eglwys Sant Luc)
- Crosskeys – 64 x Gradd II (59 o'r rhain yn ymwneud â Maestrefi Gardd Pontywaun)
- Dwyrain Rhisga – 5 x Gradd II
- Gorllewin Rhisga – 17 x Gradd II
- Ynysddu – 12 x Gradd II ac 1 x Gradd II\* (Eglwys Tudor Sant, Mynyddislwyn)

*Ffigur 8: Eglwys Sant Tudur, Mynyddislwyn*

Mae saith **Heneb Gofrestredig** yn Islwyn Isaf – mae'r rhain yn safleoedd o bwysigrwydd archeolegol gydag amddiffyniad cyfreithiol penodol rhag difrod neu ddatblygiad. Mae tri yn Ynysddu, dau yn Rhisga ac un yr un yn Abercarn a Crosskeys.

*Ffigur 9: Twmpath Twmbarlwm a Chastell Beili, Rhisga*

Mae dwy **Ardal Gadwraeth** yn Islwyn Isaf – Parc Coffa Cwmcarn a Maestrefi Gerddi Pontywaun. Mae'r term Ardal Gadwraeth bron bob amser yn berthnasol i ardal (trefol neu ganol pentref fel arfer) sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, yr ystyrir bod ei chymeriad yn haeddu cael ei chadw neu ei gwella.

### 8 Yr hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthym

Mae barn cymunedau ar sut y defnyddir adnoddau i ddiwallu eu hanghenion yn hanfodol, er mwyn helpu i lywio'r ffordd y caiff rhaglenni a phrosiectau eu darparu o fewn ac ochr yn ochr â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae pobl yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o asesu llesiant ein hardaloedd cymunedol, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Gwent, hyd at osod yr amcanion a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant. Er mwyn casglu safbwyntiau cymunedol i gefnogi'r broses Asesu datblygwyd proses ymwneud cyson gan grŵp o weithwyr proffesiynol ymgysylltu a chyfathrebu o bob rhan o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Oherwydd yr anawsterau amlwg o ran gallu ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19, arolwg ar-lein oedd y prif ddull o ymgysylltu. Roedd copïau papur hefyd ar gael mewn mannau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a meddygfeydd. Yn ogystal, trefnwyd dau sesiwn gweithdy ar gyfer pob un o'r pum ardal gymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, gan alluogi pobl i gyfrannu eu barn trwy drafodaethau grŵp. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r arolwg a chafodd gweithdai a grwpiau rhanddeiliaid eu rhestru i annog cymunedau a grwpiau i gymryd rhan.

Rydym wedi gallu dadansoddi barn trigolion o fewn yr ardaloedd cymunedol trwy god post a dadansoddiadau eraill, fel y gellir deall gwahanol ganfyddiadau o fewn ardal a'u cymharu â'r data yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn.

Yn Islwyn Isaf, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod eu cymdogaeth yn gyfeillgar, yn glos a bod ganddynt ymdeimlad da o gymuned lle'r oedd pobl yn gofalu am ei gilydd. Roedd nifer o fentrau lleol lle'r oedd grwpiau eisoes wedi'u sefydlu i helpu'r rhai oedd ei angen, ac roedd cydweithredu â chymdogion wedi cynyddu ers i bandemig Covid-19 ddechrau.

Dywedodd ymatebwyr fod byw mewn cymuned fach yn Islwyn Isaf wedi helpu i wella eu llesiant, gan ei bod yn dawl ac yn heddychlon iawn.

Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn hapus ei bod yn hawdd cael mynediad i'r cefn gwlad a'r parcedir lleol lle gallent fynd am dro hir, anadlu'r awyr iach, a

mwynhau'r golygfeydd hyfryd o'u cwmpas. Amlygodd ymatebwyr fod sbwriel yn broblem o fewn cymunedau lleol a nodwyd y gellid rhoi mwy o ystyriaeth i osod biniau sbwriel er mwyn helpu i annog pobl i leihau faint o sbwriel sy'n bresennol yn yr ardal.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid cael mwy o ddigwyddiadau i bobl ddod at ei gilydd, yn enwedig ar gyfer pobl iau a hŷn. Roeddent o'r farn y dylai pobl yr ardal eu hunain fod yn rhan o'r broses o feddwl am syniadau a chyflwyno cynlluniau ar gyfer sut i ddefnyddio adeiladau a chyfleusterau presennol i'w defnyddio gan y cymunedau. Byddai cynyddu'r cyfleoedd i drigolion agor deialog gyda gwasanaethau cyhoeddus drwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn darparu gwell cyfathrebu dwy ffordd, gan annog pobl i leisio'u barn a hysbysu preswylwyr yn well. Roedd galwadau hefyd am well cysylltiadau cludiant cyhoeddus (yn enwedig i ysbytai), mwy o doiledau cyhoeddus a chyfleusterau parcio ychwanegol.

Dywedodd ymatebwyr fod cael mynediad at gyfleusterau yn eu cymuned yn bwysig iawn, oherwydd gall helpu pobl i reoli eu lles meddyliol a chorfforol. Dywedwyd bod hyn yn hanfodol i bobl hŷn o fewn y gymuned, gan ei bod yn bwysig iddynt aros mor iach ac annibynnol ag y gallant gyhyd ag y bo modd.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo'n weddol ddiogel yn eu hardal, roedd yn gyffredin iddynt ofyn am fwy o bresenoldeb yr heddlu, a allai helpu i frwydro yn erbyn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, delio cyffuriau yn agored a gangiau o bobl ifanc yn loetran.

Cynhaliodd y Rhwydweithiau Lles Integredig rywfaint o ddadansoddi ar y cyd â phartneriaid rhwydwaith yn ei feysydd ffocws ddiwedd 2020, a amlygodd fod y pandemig wedi gwaethgu llawer o'r anghydraddoldebau presennol mewn cymunedau, mewn meysydd fel iechyd meddwl a llesiant ac allgau digidol yn ogystal â nodi bod pobl yn manteisio fwyfwy ar y cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn eu tirweddau lleol.

### Cyfeiriadau

<sup>1</sup>Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 , Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>2</sup>Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>3</sup> Cofrestr Treth y Cyngor CBS Caerffili, Rhagfyr 2021

<sup>4</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

<sup>5</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

<sup>6</sup>Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

<sup>7</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

<sup>8</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

<sup>9</sup>Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

<sup>10</sup>Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

<sup>11</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>12</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS204EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>13</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS201EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>14</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS209EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>15</sup> <https://www.zap-map.com/live/>

<sup>16</sup>MALIC 2019 Data Dangosydd Parth Mynediad i Wasanaethau, StatsCymru

<sup>17</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

<sup>18</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

<sup>19</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

<sup>20</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

<sup>21</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

<sup>22</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

<sup>23</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>24</sup>Nifer y marwolaethau a chyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddyddiad cofrestru, cyfartaledd 3 blynedd, 2017-19, Mapiau Iechyd Cymru

<sup>25</sup>Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

<sup>26</sup>Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

<sup>27</sup>Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

<sup>28</sup>Disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd i wrywod/benywod ar enedigaeth yn erbyn Wardiau Cyfrifiad 2011 2009 i 2013, Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>29</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>30</sup>Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

<sup>31</sup>Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

<sup>32</sup>Prisiau tai canolrifol fesul ward: Set Ddata HPSSA 37, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>33</sup>Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru

<sup>34</sup>Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru

<sup>35</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS601EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>36</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS501EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>37</sup> Tabl Cyfrifiad 2011 KS605EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>38</sup><https://valleysregionalpark.wales/>

<sup>39</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol